



SNAP Cymru

Gwybodaeth a Chyngor i Bobl Ifanc



Mae SNAP Cymru'n darparu gwybodawth, cyngor a chefnogaeth ddiiduedd

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bobl ifanc a'u rhieni gael mwy o lais ynglŷn â'r help sydd ei angen arnynt.

Dylech gael cyfle i wneud penderfyniadau am:

- Yr help sydd ei angen arnoch
- Yr ysgol neu'r coleg yr hoffech fynd iddynt
- Yr hyn yr hoffech ei wneud yn y dyfodol

Cael help yn y Coleg

Rhaid i golegau ddilyn Cod ADY 2021. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw:

- Helpu myfyrwyr sydd ag ADY
- Rhaid iddynt ddilyn Deddf Cydraddoldeb 2010.

Rhaid i'r coleg drefnu darpariaeth dysgu ychwanegol os oes angen.

Mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol yn golygu unrhyw help sy'n wahanol neu'n ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei gynnig i fyfyrwyr eraill.

Bydd eich ysgol neu'ch coleg yn dal i edrych ar yr help maent yn ei roi i chi i weld a yw'n ddigon i'ch helpu i ddysgu. Byddwch angen gwahanol fathau o help ar wahanol adegau.

Cynlluniau dysgu unigol

Os oes gennych chi anghenion dysgu ychwanegol lle bydd angen mwy o help na'r hyn sydd ar gael fel arfer, bydd y coleg yn paratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Wrth ddatblygu eich CDU mi gewch gyfle i sôn am y pethau rydych angen help i'w gwneud.

Bydd paratoi eich CDU yn cymryd 35 diwrnod amser tymor a bydd yn rhestru'r help y byddwch yn ei gael.

Pan fydd y cynllun cymorth neu'r CDU yn barod, byddwch yn cael person penodol a fydd yn gyfrifol am eich cynllun ac am wneud yn siŵr eich bod yn cael yr help sydd wedi'i ddisgrifio yn y cynllun. Yr enw ar y person yma fel arfer fydd Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ond mae enwau eraill yn cael eu defnyddio hefyd.





Os oes angen help arnoch,
cysylltwch â ni:

-  Llinell Gymorth: 0808 801 0608
-  e-bost: enquiries@snapcymru.org
-  www.snapcymru.org
-  @snapcymru  SNAP Cymru

*Gall y gwasanaethau yma eich helpu
gyda chyngor syml 'untro' neu fwy
manwl gan weithiwr achos o'ch tîm
lleol*

Cwmni cyfyngedig 2832114 | Elusen gofrestredig1027599

Bydd yr CDU yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a bydd yn cael ei rannu â'ch tiwtoriaid cwrs a staff eraill yn ôl yr angen.

Os ydych chi'n 16 oed neu hŷn, chi fydd y prif berson a fydd yn gwneud y penderfyniadau. Ond, mi fydd gennych hawl i gael help eich rhieni neu rywun sy'n eich adnabod i gael yr help sydd ei angen arnoch.

Dyma rai pethau y dylech feddwl amdanynt pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau am yr help y byddwch yn ei gael:

- Pa fath o benderfyniadau ydych chi'n hapus i'w gwneud?
- A hoffech chi i rywun arall fod yn rhan o'r penderfyniadau rydych yn eu gwneud? Er enghraifft, eiriolydd neu eich rhieni?



Enghreifftiau o gwestiynau i'w golyn i'ch ysgol/coleg:

- Pa help mae'r ysgol neu goleg yn ei gynnis i fyfyrwyr fel fi sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau?
- Pa fathau o bethau wyf i angen help â hwy?
- Pa help sydd ar gael i fy helpu?
- Pa benderfyniadau alla i eu gwneud am yr help y byddaf yn ei gael?
- Gyda phwy alla i siarad os byddaf angen mwy o help?

Sut y gall SNAP Cymru helpu:

- Gallwn edrych gyda chi ar y dewisiadau sydd ar gael
- Rhoi gwybodaeth a all eich helpu i wneud penderfyniadau ar ôl ystyried popeth
- Eich rhoi mewn cysylltiad â'r bobl iawn, neu gysylltu â hwy ar eich rhan
- Eich helpu i baratoi a/neu fynd gyda chi i'ch cefnogi mewn cyfarfodydd/apwyntiadau
- Rhoi i chi'r sgiliau a'r hyder i wneud penderfyniadau